# Gweithredu cynnydd i rai o ffioedd y llysoedd a thribiwnlysoedd

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 10 Tachwedd 2023

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dod i ben ar 22 Rhagfyr 2023

Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Gweithredu cynnydd i rai o ffioedd y llysoedd a thribiwnlysoedd

**Ymgynghoriad a gynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae hefyd ar gael yn www.consult.justice.gov.uk**

# Yr ymgynghoriad hwn

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa:** | Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anelu at ddefnyddwyr awdurdodaethau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi yr effeithir arnynt, y proffesiwn cyfreithiol, y farnwriaeth, y sector cynghori, y sector gwirfoddol, a phawb sydd â diddordeb yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd. |
| **Hyd:** | O 10/11/23 i 22/12/23 |
| **Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat amgen):** | Tîm Polisi Ffioedd / Fees Policy Team<br>Y Weinyddiaeth Gyfiawnder / Ministry of Justice<br>102 Petty France<br>Llundain SW1H 9AJ<br><br>E-bost: mojfeespolicy@justice.gov.uk |
| **Sut i ymateb:** | Anfonwch eich ymatebion erbyn 22/12/23 i:<br><br>Tîm Polisi Ffioedd / Fees Policy Team<br>Y Weinyddiaeth Gyfiawnder / Ministry of Justice<br>102 Petty France<br>Llundain SW1H 9AJ<br><br>E-bost: mojfeespolicy@justice.gov.uk |

# Cynnwys


**Rhagair gweinidogol** **3**

**Crynodeb gweithredol** **5**

**Cyflwyniad** **7**

Cefndir 7

Yr ymgynghoriad hwn 9

**Y cynigion** **11**

Cynnig 1: Cynyddu rhai o ffioedd y llysoedd a thribiwnlysoedd o 2024 11

Cynnig 2: Sefydlu cynyddiadau rheolaidd i ffioedd 13

Cynnig 3: Cynyddu ffi gorchymyn atebolrwydd y treth cyngor 14

Effaith cyflwyno’r cynigion 15

Y cyfnod ymgynghori 15

**Asesiad o'r effaith, cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg** **17**

Asesiad effaith 17

Cydraddoldeb 17

Yr iaith Gymraeg 18

**Holiadur** **19**

**Amdanoch chi** **20**

**Manylion cyswllt a sut i ymateb** **21**

Cwynion neu sylwadau 21

Copïau ychwanegol 21

Cyhoeddi’r ymateb 21

Grwpiau cynrychioliadol 21

Cyfrinachedd 21

**Egwyddorion ymgynghori** **23**

**Atodiad A: Y ffioedd arfaethedig i’w cynyddu** **24**

# Rhagair gweinidogol

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF (GLITEF) yn chwarae rhan hanfodol wrth gynnal rheolaeth y gyfraith drwy alluogi i holl ddinasyddion y DU arfer eu hawl cyfansoddiadol i gael mynediad at gyfiawnder. P'un a ydynt yn gwneud hawliad am swm o arian sy'n ddyledus iddynt, sicrhau bod plentyn yn cael ei leoli mewn cartref diogel, neu apelio dyfarniad llys presennol, mae'r cyhoedd yn defnyddio llysoedd a thribiwnlysoedd mewn nifer o ffyrdd i orfodi eu hawliau. Yn ei hanfod, mae GLITEF yn cynrychioli conglfaen ein democratiaeth drwy hwyluso gweithrediad priodol y gyfraith.

Yn sicr, heb ffrwd gyson, gynaliadwy o incwm i warantu bod ganddo adnoddau digonol, byddai'n amhosibl i GLITEF gyflawni ei wasanaethau byd-enwog i'r cyhoedd. Felly, gofynnir i ddefnyddwyr llysoedd a thribiwnlysoedd gyfrannu at gost y broses gyfiawnder drwy dalu ffioedd pan allant fforddio wneud hynny.

Mae ffioedd llysoedd yn rhan sylweddol o fodel cyllido cyffredinol GLITEF. Cynhyrchodd £727 miliwn o incwm ar gyfer y £2.3 biliwn a gostiodd i gynnal yr asiantaeth yn 2022/23. Mae'r gweddill yn cael ei ariannu gan y trethdalwr, gan gynnwys yr holl gostau yn yr awdurdodaeth droseddol a chost ein cynllun dileu ffioedd Help i Dalu Ffioedd, sy'n talu cost ffioedd llysoedd a thribiwnlysoedd i bobl â modd ariannol cyfyngedig. Mae hyn yn sicrhau, wrth gynhyrchu incwm hollbwysig ar gyfer GLITEF, nad yw mynediad at y llysoedd yn cael ei effeithio yn y broses. Ac i ddiogelu mynediad at gyfiawnder ymhellach, rwy'n falch iawn y byddwn yn lansio cynllun Help i Dalu Ffioedd diwygiedig, a mwy hael yn fuan, i ddarparu lefelau uwch o gymorth ariannol i'r rhai â'r angen mwyaf.

Fodd bynnag, mae'n hollbwysig bod GLITEF yn parhau i dderbyn ffrwd ddigonol o incwm drwy sicrhau bod ffioedd yn cyd-fynd â'r costau uwch i GLlTEF sy'n deillio o newidiadau i lefelau cyffredinol prisiau, gan leihau'r gost i'r trethdalwr cymaint â phosibl ar yr un pryd. Felly, mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig cynyddu detholiad o ffioedd priodol i gyfrif am newidiadau i lefelau cyffredinol prisiau. Rwy'n credu y bydd cynyddu ein ffioedd 10% - ychydig dros hanner y cynnydd o 17.8% yn y mynegai prisiau defnyddwyr (CPI) ers iddynt gael eu cynyddu diwethaf yn 2021 – yn creu cydbwysedd teg rhwng alinio cyfraniadau defnyddwyr yn agosach â chostau cynyddol GLITEF a chydnabod y pwysau ariannol parhaus sy'n wynebu aelwydydd o ganlyniad i'r cynnydd mewn costau byw.

Disgwylir i'r cynnydd o 10% i hyd at 202 o ffioedd gynhyrchu rhwng tua £34 miliwn a £42 miliwn y flwyddyn, sy'n lefel sylweddol o gyllid ychwanegol a fydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at wella'r ddarpariaeth gwasanaeth, gan sybsideiddio'r gost sy'n gysylltiedig â gwasanaethau'r llysoedd a thribiwnlysoedd nad ydym yn codi ffioedd amdanynt, a lleihau'r gost gyffredinol i'r trethdalwr.

Ar y cyfan, mae cynyddu ffioedd y llysoedd a thribiwnlysoedd yn hanfodol i'n gwaith parhaus i ddiogelu mynediad at y llysoedd i bawb sy'n ceisio cyfiawnder. Ochr yn ochr â'r cynllun diwygiedig Help i Dalu Ffioedd, rwy'n hyderus y bydd y cynigion hyn yn darparu cyllid

hanfodol i GLITEF, a hynny heb wadu mynediad at gyfiawnder i'r rhai na allant o bosibl fforddio ffi llysoedd.

**Gweinidog Freer AS**

Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol

# Crynodeb gweithredol

1. Mae'r ddogfen hon yn nodi cynnig y llywodraeth i gyflwyno cynnydd o 10% i hyd at 202 o ffioedd y llysoedd a thribiwnlysoedd ar draws sawl awdurdodaeth yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi (GLlTEF). Yn rhannol, byddai'r cynnydd hyn yn adlewyrchu'r newidiadau yn y mynegai prisiau defnyddwyr (CPI), wedi'u hôl-ddyddio i'r tro diwethaf y diweddarwyd ffioedd GLITEF yn 2021.

2. Mae'r nifer derfynol o ffioedd sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig hwn yn agored i newid yn ddibynnol ar yr ymatebion a gawn, yn ogystal â chanlyniad dadansoddiad parhaus i gadarnhau eu cost gysylltiedig i GLITEF. Ni fydd unrhyw ffi yn cael ei chynyddu i lefel sy'n uwch na'i chost sylfaenol, ac eithrio ffioedd penodol sydd wedi'u pennu gyda phŵer penodol sy'n galluogi iddynt or-adfer cost. Mae hyn yn golygu y gallai ffioedd penodol sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig hwn gael eu heithrio os canfyddir bod cynnydd o 10% yn arwain at or-adferiad.

3. Bydd y cynnydd arfaethedig yn alinio'n well y ffioedd a godir ar ddefnyddwyr llysoedd gyda'r costau gweinyddol a barnwrol a delir gan GLITEF, sydd wedi cynyddu o ganlyniad i lefel gyffredinol prisiau. Disgwylir i'r cynnydd godi rhwng tua £34 miliwn a £42 miliwn yn ychwanegol y flwyddyn. Bydd hyn yn cynorthwyo GLITEF i barhau i ddarparu ei wasanaethau yn effeithlon ac effeithiol, wrth leihau'r un pryd lefel cymhorthdal trethdalwyr pan na chaiff ffioedd eu codi neu eu gosod yn is na'u cost gysylltiedig. Gan fod angen dadansoddiad pellach o'r costau sylfaenol ar gyfer rhai ffioedd, mae'r incwm amcangyfrifedig hwn yn agored i newid, a bydd ffigurau wedi'u diweddaru yn cael eu rhannu yn yr ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

4. Mae cynyddu ffioedd GLITEF yn golygu y gall defnyddwyr y llysoedd wneud cyfraniad tecach i'r gost o ddarparu'r gwasanaethau y byddant hwy'n elwa ohonynt. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod y ffioedd yn fforddiadwy ac wrth gydnabod dyletswydd yr Arglwydd Ganghellor i ddiogelu mynediad at gyfiawnder, rydym ond yn cynnig codi'r ffioedd i gyd-fynd yn rhannol â lefel gyffredinol prisiau. Cefnogir hyn ymhellach gan gynllun diwygiedig Help i Dalu Ffioedd y llywodraeth, a fydd yn darparu mwy o gymorth ariannol i'r rhai na allant fforddio eu ffioedd o bosibl, pan gaiff ei lansio yn ddiweddarach eleni.

5. Yn ogystal â thrafod cynyddu ffioedd unigol, mae'r ymgynghoriad hwn yn gwneud dau gynnig pellach. Y cyntaf yw sefydlu trefniant rheolaidd i ddiweddaru ffioedd bob dwy flynedd gan gyfeirio at unrhyw newidiadau yng nghostau GLITEF a lefel gyffredinol prisiau. Byddai gwneud newidiadau llai, rheolaidd i ffioedd, yn hytrach na chynnydd llai aml ond mwy, yn darparu ffrwd fwy cynaliadwy o incwm i GLITEF ac yn gwasgaru'r effaith ariannol ar ddefnyddwyr y llysoedd a'r tribiwnlysoedd.

6. Yr ail gynnig yw pennu ffi gorchymyn atebolrwydd y treth cyngor o dan yr hyn a elwir yn bŵer 'gwell' yr Arglwydd Ganghellor, sy'n galluogi i ffioedd gael eu gosod ar werth

sy'n uwch na'u cost sylfaenol i GLITEF. Bydd gwneud hynny'n ein galluogi i gadw'r ffi ar ei lefel bresennol o £0.50c, wrth roi cyfrif am yr amrywiadau rheolaidd yn ei chost a all newid flwyddyn ar ôl blwyddyn.

7. Bydd yr ymgynghoriad hwn ar agor ar gyfer ymatebion hyd at 22 Rhagfyr 2023. Mae'r llywodraeth yn ceisio barn defnyddwyr yr awdurdodaethau hynny o GLITEF yr effeithir arnynt, y proffesiwn cyfreithiol, y farnwriaeth, y sector cynghori, y sector gwirfoddol a'r rhai â diddordeb yng ngwaith GLITEF.

# Cyflwyniad

## Cefndir

8. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi (GLITEF) yn asiantaeth weithredol sy'n gyfrifol am weinyddu a darparu gwasanaethau llysoedd yn nhribiwnlysoedd a llysoedd troseddol, sifil a theulu ledled Cymru a Lloegr.  Mae gwasanaethau GLITEF yn cwmpasu sawl awdurdodaeth. Yr awdurdodaethau yr effeithir arnynt gan y cynnig hwn yw:-

   - Llysoedd Sifil (gan gynnwys y Llys Sirol a'r Uchel Lys)
   - Llysoedd Ynadon
   - Llysoedd Teulu
   - Y Gofrestrfa Brofiant
   - Y Llys Gwarchod
   - Tribiwnlysoedd (gan gynnwys y Siambr Reoleiddio Gyffredinol mewn cysylltiad â hapchwarae, y Siambr Tir, y Siambr Mewnfudo a Lloches (yr Uwch Dribiwnlys yn unig) a'r Siambr Eiddo)

9. Mae GLITEF yn darparu llwyfan hollbwysig i bobl gael mynediad at eu hawl i gyfiawnder, rhan sylfaenol o gyfansoddiad y Deyrnas Unedig. Wedi'i noddi gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'i llywodraethu gan farnwriaeth annibynnol, mae GLITEF yn gweinyddu ystod eang o wasanaethau i aelodau'r cyhoedd sy'n ceisio cymorth gyda mater cyfreithiol neu ddatrys anghydfod rhwng partïon.  Mae darparu'r gwasanaethau cyhoeddus hanfodol hyn yn sicrhau bod y wladwriaeth yn cadw at ei hegwyddorion fel y'u hymgorfforir mewn deddfwriaeth, drwy alluogi pobl i sefydlu neu amddiffyn eu hawliau ar unrhyw bwynt yn eu bywydau pan fydd ei angen arnynt.

10. Mae gan yr Arglwydd Ganghellor ddyletswydd statudol i sicrhau bod gan GLITEF yr adnoddau sydd ei angen arno i weithredu'n effeithlon ac effeithiol.  Mae ffioedd llysoedd a thribiwnlysoedd yn chwarae rhan bwysig er mwyn cyflawni hyn, gan gyfrif am £727 miliwn o'r cyfanswm o £2.3 biliwn a gostiodd i redeg GLITEF yn 2022/23, gyda'r costau sy'n weddill yn deillio o drethiant cyffredinol.[1] Mae GLITEF yn gweithredu yn unol ag egwyddorion Trysorlys EM, fel y'u nodir yn y cyhoeddiad Rheoli Arian Cyhoeddus, drwy adfer cyfraniad at y gost o ddarparu ei wasanaethau gan ddefnyddwyr llysoedd a thribiwnlysoedd sy'n gallu fforddio talu ffi.[2]

[1] Mae hyn yn cynrychioli cyfanswm incwm net o ddyled na chesglir mohoni, cyn ad-daliadau.  Mae'r ffynhonnell ar gael yn: www.gov.uk/government/publications/hm-courts-tribunals-service-annual-report-and-accounts-2022-to-2023

[2] Ar gael yn: www.gov.uk/government/publications/managing-public-money

11. Fodd bynnag, mae gan yr Arglwydd Ganghellor ddyletswydd ychwanegol i ddiogelu mynediad at gyfiawnder i bawb, ac felly mae'n rhaid i ffioedd gael eu gosod ar lefelau fforddiadwy fel nad yw unrhyw un yn cael ei atal rhag defnyddio'r gwasanaeth llysoedd a thribiwnlysoedd wrth geisio datrysiad i fater cyfreithiol. Cefnogir hyn ymhellach gan ein cynllun dileu ffioedd Help i Dalu Ffioedd, sy'n sicrhau bod mynediad at gyfiawnder yn cael ei ddiogelu ar gyfer holl ddefnyddwyr y llysoedd, ni waeth beth yw eu statws ariannol, drwy ddarparu cymorth ariannol tuag at gost ffioedd llysoedd a thribiwnlysoedd i ddefnyddwyr cymwys.[3]

12. Fel arfer, mae ffioedd llysoedd a thribiwnlysoedd yn cael eu gosod ar y gost o ddarparu eu gwasanaeth cysylltiedig, yn unol â safonau Rheoli Arian Cyhoeddus. Mae gan yr Arglwydd Ganghellor nifer o bwerau sy'n ei alluogi i bennu ffioedd llysoedd a thribiwnlysoedd, ond yn gyffredinol nid yw hyn yn caniatáu iddo bennu ffi sy'n uwch o ran gwerth na'r gost o ddarparu'r gwasanaeth cysylltiedig.[4] Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae gan yr Arglwydd Ganghellor y pŵer i osod ffioedd sy'n uwch na chost gwasanaeth (a elwir yn 'ffioedd uwch), o dan adran 180 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014. Mae ffioedd uwch yn creu lefelau incwm uwch i GLITEF pan fydd risg isel o oblygiadau fforddiadwyedd i ddefnyddwyr a pham roddwyd cymeradwyaeth seneddol benodol. Yn bwysicach, mae'r incwm o'r ffioedd uwch yn helpu i sybsideiddio cost gwasanaethau cysylltiedig lle na chodir unrhyw ffioedd er budd defnyddwyr agored i niwed, er enghraifft y rhai sydd angen gorchymyn rhag molestu neu orchymyn anffurfio organau cenhedlu benywod i sicrhau eu diogelwch.

13. Mae'r gost o sybsideiddio'r gwasanaethau hyn wedi cynyddu ers gweithredu'r newidiadau sylweddol diwethaf i ffioedd yn 2021. Ers hyn, mae CPI wedi cynyddu 17.8%, ond nid yw ffioedd wedi'u diweddaru yn unol â hynny. Canlyniad hyn yw bod lefelau adfer costau o ffioedd wedi parhau i leihau dros amser, sy'n golygu bod mwy o ddibyniaeth ar gymhorthdal gan y trethdalwyr ac achosi i'r model cyllido presennol ar gyfer GLITEF fod yn gynyddol llai cynaliadwy.

14. I leihau'r gost i'r trethdalwr wrth sicrhau cyllid digonol ar gyfer GLITEF, rydym yn cynnig cynyddu'r ffioedd i adlewyrchu newidiadau i lefel gyffredinol prisiau ers 2021, pan fyddwn yn asesu ei bod yn briodol i ni wneud hynny. Bydd uwchraddio ffioedd yn y ffordd hon yn sicrhau bod cyfran uwch o gostau GLITEF yn cael eu hadfer gan ddefnyddwyr llysoedd, gan alluogi ffrwd incwm mwy sefydlog i gefnogi gwelliannau parhaus i'r broses o ddarparu gwasanaethau i'r rhai sy'n ceisio canlyniadau cyfiawnder.

---

[3] Mae gwybodaeth bellach ar gael yn: www.gov.uk/ help-i-dalu-ffioedd-llysoedd-a-thribiwnlysoedd

[4] Sefydlir y pwerau hyn yn: adran 92 Deddf Llysoedd 2003; adran 42 Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007; adran 54 a 58 Deddf Galluedd Meddyliol 2005; adrannau 414 a 415 Deddf Ansolfedd 1986; adran 52 Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005; ac adran 7(2) Deddf Cydnabod Rhywedd.

## Yr ymgynghoriad hwn

15. Mae’r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar y cynnig i gynyddu hyd at 202 o ffioedd i adlewyrchu’n rhannol newidiadau i’r CPI ers i’r ffioedd gael eu diweddaru diwethaf. Mae’r ffioedd a nodwyd wedi’u nodi yn y gorchmynion ffioedd canlynol:

    - Rheoliadau Cofrestru Gweithredoedd (Ffioedd) 1994 – OS 1994/601
    - Gorchymyn Ffioedd Profiant Annadleuol 2004 – OS 2004/3120
    - Gorchymyn Ffioedd y Llys Gwarchod 2007 – OS 2007/1745
    - Gorchymyn Ffioedd y Llys Ynadon 2008 – OS 2008/1052
    - Gorchymyn Ffioedd Achosion Teulu 2008 – OS 2008/1054
    - Gorchymyn Ffioedd Achosion Sifil 2008 – OS 2008/1053
    - Gorchymyn Ffioedd yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Tir) 2009 – OS 2009/1114
    - Gorchymyn Ffioedd y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Hapchwarae) 2010 – OS 2010/42
    - Gorchymyn Ffioedd yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Mewnfudo a Lloches) (Adolygiad Barnwrol) (Cymru a Lloegr) 2011 – OS 2011/2344
    - Gorchymyn Ffioedd y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambr Eiddo) 2013 – OS 2013/1179[5]

16. Mae'r ffioedd sydd yng nghwmpas y cynnydd hwn naill ai'n uwch - sy'n golygu eu bod eisoes wedi cael cymeradwyaeth seneddol i'w gosod uwchlaw eu cost gysylltiedig – neu maent yn ffioedd sydd wedi’u gosod gyda'r bwriad o adennill ar gost. Mae rhestr lawn o'r 202 o newidiadau arfaethedig i ffioedd i'w gweld yn Atodiad A.

17. Fodd bynnag, dylid nodi y gallai nifer terfynol y ffioedd sydd wedi’u cynnwys yn yr ymarfer hwn fod yn is na 202. Mae hyn oherwydd bod angen dadansoddiad pellach o 70 o’r 202 o ffioedd a nodwyd i gadarnhau eu cost sylfaenol i GLITEF, ac felly sicrhau nad yw unrhyw ffioedd nad ydynt yn ffioedd uwch yn cael eu cynyddu y tu hwnt i’r gost hon. Pe byddem yn darganfod bod cynnydd o 10% i ffi nad yw’n ffi uwch yn golygu bod ei gwerth yn uwch na’i chost sylfaenol, byddwn yn eithrio’r ffi honno o’r ymarfer. Mae’r 70 o ffioedd sydd angen dadansoddiad pellach wedi’u hamlygu yn Atodiad A, ac mae crynodeb mwy manwl o sut maent yn wahanol i'r 132 ffi sy’n weddill wedi’i nodi ym mharagraffau 29 a 30 isod.

18. Yn amodol ar yr ymatebion a geir mewn perthynas â'r cynnig hwn, os cytunir ar y newidiadau hyn, disgwylir iddynt gael eu gweithredu ym mis Mawrth 2024.

19. Mae’r ymgynghoriad hwn hefyd yn cynnwys dau gynnig pellach: un ar wneud diweddariadau cynyddrannol i ffioedd er mwyn adlewyrchu newidiadau i gostau a

[5] Mae’r gorchmynion ffioedd gwreiddiol a’r diwygiadau dilynol ar gael ar-lein drwy chwilio’r gorchmynion ffioedd a/neu eu rhifau OS uchod yn: www.legislation.gov.uk

chwyddiant bob dwy flynedd, ac un arall ar gynyddu ffi gorchymyn atebolrwydd y treth cyngor, gyda’r bwriad o’i chynnal ar ei gwerth presennol o £0.50c.

# Y cynigion

20. Mae'r adran hon yn cwmpasu tri chynnig ar wahân: cynyddu hyd at 202 o ffioedd i adlewyrchu cynnydd yn y CPI, sefydlu cynnydd rheolaidd i ffioedd bob dwy flynedd; a chynyddu ffi gorchymyn atebolrwydd y treth cyngor.

## Cynnig 1: Cynyddu rhai o ffioedd y llysoedd a thribiwnlysoedd o 2024

21. Bydd y cynnig hwn, o'i weithredu, yn cynyddu hyd at 202 o ffioedd 10% i gyfrif yn rhannol am gynnydd wedi'i ôl-ddyddio i'r CPI. Mae'r ffioedd yr effeithir arnynt wedi'u pennu gan y deg gorchymyn ffioedd ym mharagraff 15. Mae'r gorchmynion a'r ffioedd perthnasol sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig hwn i'w gweld yn Atodiad A.

22. Diweddarwyd ffioedd GLITEF ddiwethaf ym Medi 2021 i gyfrif am chwyddiant wedi'i ôl-ddyddio rhwng Awst 2016 a Mawrth 2021. Ers hynny, mae'r CPI wedi cynyddu 17.8% rhwng Mawrth 2021 a Mawrth 2023, gan adlewyrchu'r cynnydd ym mhrisiau nwyddau a gwasanaethau sy'n effeithio ar aelwydydd cyffredin. Er nad oes metrig cyfatebol cyhoeddedig sy'n benodol i GLITEF, mae newidiadau yn y CPI yn darparu dangosydd defnyddiol o'r newidiadau mewn chwyddiant a delir gan GLITEF.

23. Mae'n synhwyrol yn awr ein bod yn ceisio cynyddu ein ffioedd eto er mwyn i gyfraniadau defnyddwyr i wasanaethau llysoedd a thribiwnlysoedd alinio'n agosach â'r costau cynyddol a brofir gan GLITEF o ganlyniad i newidiadau yn lefel gyffredinol prisiau. Bydd gwneud hynny nid yn unig yn helpu i hwyluso ffynhonnell incwm fwy cynaliadwy ar gyfer GLITEF, sy'n hanfodol ar gyfer darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i'r rhai hynny sy'n defnyddio'r llysoedd, ond bydd hefyd yn lleihau lefel y cyfraniadau sydd eu hangen gan y trethdalwr i gynnal system sy'n gweithredu'n dda.

24. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod aelwydydd yn y DU yn parhau i wynebu pwysau ariannol parhaus yn sgil y costau byw uwch. I leihau effaith y cynnydd i ffioedd ar ddefnyddwyr i'r graddau y mae hynny'n bosibl a diogelu mynediad at gyfiawnder, - rydym yn cynnig y bydd codiadau ffioedd yn trosglwyddo codiadau rhannol yn unig i CPI, yn hytrach nag ymgorffori'r cynnydd 17.8% llawn a fesurwyd rhwng Mawrth 2021 a Mawrth 2023. Rydym yn credu bod cynnydd o 10% yn cynrychioli cydbwysedd delfrydol rhwng hwyluso model cyllido cynaliadwy ar gyfer GLITEF a sicrhau bod ffioedd yn fforddiadwy i ddefnyddwyr llysoedd.

25. Hefyd, rydym yn cynnig bod y cynnydd i ffioedd yn cael eu cyflwyno yn ystod Gwanwyn 2024, ar ôl sefydlu'r cynllun dileu ffioedd Help i Dalu Ffioedd newydd ddiwedd 2023. Cynlluniwyd y cynllun diwygiedig i ddarparu cymorth ariannol gwell i'r rhai a allai gael anhawster i fforddio ffi llys.

26. I adnabod pa rai o'r 300 a mwy o ffioedd GLITEF y dylid eu cynnwys yn y cynnig i gynyddu ffioedd, rydym wedi cynnal dadansoddiad o bob un o'r ffioedd yn unigol yn erbyn nifer o feini prawf eithrio. Mae hyn wedi ein cynorthwyo i adnabod 104 o ffioedd yr aseswyd eu bod yn amhriodol i'w cynnwys. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ffioedd yr ydym yn bwriadu eu hadolygu, eu hail-ddylunio neu eu dileu yn y dyfodol agos, gyda'r bwriad o symleiddio ein system ffioedd gyffredinol.
- ffioedd gwerth isel neu sero lle byddai cynnydd o 10% yn ddibwys neu'n ddim.
- achlysuron pan fyddai cynnydd o 10% ar gyfer y ffi yn gwrthdaro â dyletswydd yr Arglwydd Ganghellor i ddiogelu mynediad at gyfiawnder, o ystyried pa mor agored i niwed yw'r mwyafrif o ddefnyddwyr a/neu natur sensitif yr achosion dan sylw.
- ffioedd a godir ar sail cyfrifiad, neu sydd wedi'u bandio ar ystod o werthoedd. (Byddai cynnydd o 10% yn newid y trothwyon penodol ar gyfer pennu'r ffioedd hyn, sy'n weithredol er mwyn sicrhau bod ffioedd yn parhau i fod yn gymesur i werth yr hawliad cysylltiedig).

27. Roeddem felly'n teimlo'n sicr y gellid cynyddu'r 202 o ffioedd sy'n weddill 10% i gynhyrchu lefelau uwch o incwm heb rwystro mynediad at gyfiawnder na newid eu dyluniad. Mae rhestr lawn o'r ffioedd a ddewiswyd ar gyfer eu cynyddu yn Atodiad A.

28. Rydym yn amcangyfrif y byddai cynyddu pob un o'r 202 o ffioedd 10% yn cynhyrchu rhwng £34 miliwn a £42 miliwn y flwyddyn mewn cyllid ychwanegol ar gyfer y gwaith hollbwysig o ddarparu gwasanaethau GLITEF. Er byddai'n rhaid i ddefnyddwyr dalu ffioedd uwch o ganlyniad, bydd y newidiadau hyn nid yn unig yn adlewyrchu'n decach y costau a delir gan GLITEF i brosesu ceisiadau llysoedd a thribiwnlysoedd, byddai hefyd yn gymharol fach yn nhermau unigol, gyda'r mwyafrif o'r cynnydd i ffioedd (53%) o dan £20.

29. Fodd bynnag, dylid nodi bod gwaith yn parhau i ddiweddaru'r fethodoleg ar gyfer cyfrifo costau GLITEF sy'n ategu pob un o'r ffioedd dethol, a allai olygu bod llai na 202 o ffioedd wedi'u cynnwys i'w cynyddu[6]. Mae hyn yn bwysig oherwydd dim ond y ffioedd hynny a nodir o dan adran 180 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 (a elwir yn 'ffioedd uwch', gyda gweddill y ffioedd yn rhai 'nad ydynt yn uwch') yn cael eu codi ar werth sy'n uwch na'u cost gysylltiedig.

[6] Mae'n bwysig nodi nad yw cyfrifo'r ffordd y priodolir costau i weithgarwch unigol GLITEF yr un fath â chyfrifo'r chwyddiant cyffredinol a delir gan GLITEF. Gallai'r cyntaf gael ei ddylanwadu gan ffactorau sy'n benodol i weithrediad GLITEF, er enghraifft digideiddio, newidiadau staff neu fwy o effeithlonrwydd gweinyddol drwy newidiadau i brosesau. I'r gwrthwyneb, mae'r ail yn gysylltiedig ag amrywiadau cyffredinol i brisiau cynnyrch a gwasanaethau ar draws yr economi.

Ni fyddwn yn cynyddu ffi uwch 10% pe byddai gwneud hynny'n golygu bod y ffi newydd yn uwch na'r costau a ysgwyddir gan GLITEF[7].

30. Er bod y gwaith costio wedi ein galluogi i gadarnhau y gellir cynyddu 132 o ffioedd o'r cyfanswm o 202 o ffioedd 10%, mae angen dadansoddiad pellach i gadarnhau a ellir cynnwys y 70 ffi sy'n weddill yn yr ymarfer hwn. Felly, mae Atodiad A yn nodi'r uchafswm o ffioedd yr ydym yn cynnig eu cynyddu (202 ffi), gyda'r 70 heb eu cadarnhau wedi'u hamlygu. Oherwydd bod y rhestr derfynol o ffioedd i'w cynyddu yn agored i fod yn is, byddwn yn rhannu rhestr wedi'i diweddaru ochr yn ochr â'n hamcangyfrif diweddaraf o incwm ychwanegol a gynhyrchwyd pan fyddwn yn cyhoeddi ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

31. O'i weithredu, cyflwynir cynnig 1 drwy offeryn statudol negyddol a byddai'n cynnwys diwygiadau i'r deg gorchymyn ffioedd a restrir ym mharagraff 15. Gweler Atodiad A am yr holl orchmynion ffioedd sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn. Mae'r gorchmynion a'r diwygiadau dilynol ar gael ar-lein yn www.legislation.gov.uk

## Cynnig 2: Sefydlu cynyddiadau rheolaidd i ffioedd

32. Mae cynyddiadau blaenorol i ffioedd GLITEF i adlewyrchu chwyddiant wedi'u gwneud ar sail ad hoc, gyda newidiadau'n cael eu cyflawni'n fwyaf diweddar yn 2021.[8] O ganlyniad, mae cyfraniadau defnyddwyr drwy ffioedd yn cael eu cam-alinio fwyfwy â chostau cynyddol a brofir gan GLlTEF, sydd yn y pen draw yn effeithio ar lefelau adfer costau ac yn gofyn am fwy o ddibyniaeth ar gymhorthdal trethdalwyr. Mae cynyddiadau achlysurol hefyd yn gofyn am newidiadau mwy sylweddol i ffioedd bob tro i gyfrif am yr hyn a allai fod yn nifer o flynyddoedd o ôl-ddyddio i CPI. Byddai cynyddiadau ar raddfa lai a gyflawnir yn fwy rheolaidd nid yn unig yn darparu ffrwd incwm fwy cynaliadwy i GLlTEF, ond byddai hefyd yn galluogi gweithredu codiadau ffioedd yn raddol dros amser.

33. I gyflawni'r nod hwn, rydym yn cynnig gwneud cynnydd llawn neu rannol ar sail chwyddiant i ffioedd dethol unwaith bob dwy flynedd, gan gyfeirio at y Mynegai Prisiau Defnyddwyr am y rhesymau a nodwyd ym mharagraff 22. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn adolygu'r costau sy'n ategu'r ffioedd i adnabod unrhyw amrywiadau y mae angen eu hadlewyrchu yn y ffi gyfatebol ei hun. Bydd diweddariadau i ffioedd cyn y cyfnod o ddwy flynedd yn parhau os byddwn yn dod yn ymwybodol o gostau is i GLITEF, er mwyn rhwystro i unrhyw ffioedd nad ydynt yn rhai uwch rhag gor-adfer eu cost.

---

[7] Er enghraifft, pe aseswyd bod gan ffi nad yw'n ffi uwch o £90 ar hyn o bryd gost sylfaenol o £100, yna byddai cynnydd 10% yn cael ei ystyried, oherwydd byddai'r gwerth uwch o £99 yn is na chost y ffi. I'r gwrthwyneb, ni wneir cynnydd o 10% i ffi £100 nad yw'n ffi uwch, sydd â'r un gost sylfaenol, oherwydd byddai'r gwerth newydd o £110 yn uwch na'i chost £100.

[8] Gwnaed newidiadau eraill gan OS 2010/1916, 2010/1917, 2011/586, 2011/587, 2011/588, 2013/1407, 2013/1409 a 2016/807.

34. Er byddai'r diweddariadau hyn yn cael eu cyflawni'n rheolaidd, byddem yn parhau i asesu ffioedd ar sail achosion unigol, yn hytrach na gweithredu cynnydd ar draws holl ffioedd GLITEF, neu i bob ffi a gynyddwyd yn y gorffennol, o'r un ganran bob dwy flynedd. Felly, ni fydd y cynnydd a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn, ac mewn ymgynghoriadau blaenorol, yn gweithredu fel cynsail ar gyfer unrhyw newidiadau a wnawn yn y dyfodol. Gallai adolygiadau diweddarach arwain at ddiweddaru mwy neu lai o ffioedd yn ôl cyfrannau CPI llai neu fwy.

35. Er hynny, at ddibenion parhad, rydym yn bwriadu dilyn yr un weithdrefn a ddilynwyd wrth ddewis y ffioedd i'w cynnwys yng nghynnig 1 yr ymgynghoriad hwn. Bydd hyn yn golygu pwyso a mesur sawl ffactor gwahanol i benderfynu a ddylai ffi fod o fewn neu y tu allan i gwmpas diweddariadau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- goblygiadau mynediad at gyfiawnder cynyddu'r ffi
- a yw'r ffi wedi'i newid yn ddiweddar, neu a oes newid arfaethedig ar y gweill yn y dyfodol agos
- effaith berthynol cynyddu'r ffi ar lefelau adennill costau GLITEF
- a yw'r ffi yn uwch ac, os nad ydyw, a allai ei chynyddu greu risg o or-adfer ei chost sylfaenol

36. Mae'r cynnig i weithredu cynyddiadau yn rheolaidd yn alinio â'r dull a weithredwyd ar draws rhannau eraill o'r sector cyhoeddus. Er enghraifft, mae'r Adran Drafnidiaeth yn cynyddu tocynnau trên yn flynyddol er mwyn adlewyrchu newidiadau yn y mynegai prisiau manwerthu (RPI) ac yn yr un modd yn Lloegr mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn adolygu taliadau presgripsiwn unwaith y flwyddyn. Pe baem yn bwrw ymlaen â chynnydd rheolaidd, byddai'r dull a ddefnyddir yng Nghymru a Lloegr hefyd yn alinio'n well â'r ffordd y caiff ffioedd llysoedd a thribiwnlysoedd eu diweddaru yn yr Alban, lle caiff ffioedd eu hadolygu bob tair blynedd.

37. Oherwydd y byddai'r cynyddiadau hyn i ffioedd yn cael ei ystyried fel cynnydd arferol, ac na fyddai'r rhesymeg dros y newidiadau'n wahanol iawn i'r rhai a ddisgrifiwyd o dan gynnig 1, ni fyddem yn cyhoeddi ymgynghoriad bob tro y cyflawnir diweddariadau. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i ymgynghori ar unrhyw newidiadau polisi ehangach i ffioedd llysoedd a thribiwnlysoedd nad ydynt wedi'u cynnwys o fewn diweddariadau ar sail chwyddiant neu gostau.

## Cynnig 3: Cynyddu ffi gorchymyn atebolrwydd y treth cyngor

38. Rydym hefyd yn cynnig gwella ffi 4.1 sy'n berthnasol i achosion o dan Reoliadau'r Treth Cyngor (Gweinyddu a Diwygio) 1992 neu'r Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestri Lleol) 1989 ar gais am orchymyn atebolrwydd, o dan Orchymyn Ffioedd Llysoedd Ynadon 2008. Byddai gwneud hynny yn golygu cymryd y camau seneddol perthnasol i ailddatgan y ffi o dan adran 180 Deddf Ymddygiad

Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014, ond byddem yn awyddus i gadw’r ffi ar ei lefel bresennol o £0.50c.

39. O ystyried lefel isel y ffi, y nifer o orchmynion a wneir bob blwyddyn a’r arbedion effeithlonrwydd a geir wrth eu prosesu, gall cost y gwasanaeth hwn amrywio o flwyddyn i flwyddyn o ychydig geiniogau. Drwy osod y ffi hon o dan y pŵer uwch, bydd yn osgoi'r gost anghymesur i'r trethdalwr o orfod addasu lefel y ffi yn rheolaidd a gosod offeryn statudol er mwyn cadw'r ffi ar gost.

40. Ni fyddem yn ceisio cynyddu’r ffi i fwy na £0.50c, oni fyddai’r costau o gyflenwi’r gwasanaeth hwn yn cynyddu yn uwch na’r gwerth hwn, ac yn yr achos hwnnw, byddem ond yn pennu’r ffi ar gost.

41. Byddai angen offeryn statudol cadarnhaol ar wahân ar gyfer y newid hwn, yr ydym yn bwriadu ei gyflwyno erbyn diwedd Mawrth 2024.

## Effaith cyflwyno’r cynigion

42. Cyhoeddwyd asesiad effaith (AE) ochr yn ochr â’r ddogfen hon. Mae’n nodi’r effaith bosibl pe byddai’r cynnig i gyflwyno cynnydd o 10% ar gyfer hyd at 202 o ffioedd yn cael ei weithredu. Mae’r asesiad effaith yn dangos y byddai GLITEF, defnyddwyr llysoedd (unigolion, busnesau ac awdurdodau lleol), darparwyr gwasanaethau cyfreithiol, sefydliadau cymorth yn y sector cynghori a gwirfoddolwyr, trethdalwyr a’r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn debygol o gael eu heffeithio’n benodol. Amlinellir gwybodaeth bellach am yr effeithiau penodol ym mharagraffau 48 a 49.

43. Mae’r cynigion hyn yn debygol o greu costau ychwanegol i GLITEF a’r sector gwirfoddol/cynghori (oherwydd y newidiadau sydd eu hangen i’w gweithredu) yn ogystal ag unigolion, busnesau a’r sector cyhoeddus (o ganlyniad i ffioedd uwch).

## Y cyfnod ymgynghori

44. Mae’r ymgynghoriad hwn yn ceisio safbwyntiau ar y cynnig y dylid cynyddu’r ffioedd a amlinellir yn Atodiad A 10% i roi cyfrif yn rhannol am lefelau CPI cynyddol ers mis Mawrth 2021. Mae hyn yn cynnwys 70 o’r cyfanswm o 202 o ffioedd a gynigir ar gyfer cynyddiadau sy’n dal i gael eu hadolygu i gadarnhau eu cost cysylltiedig. Mae hefyd yn ceisio barn ar y cynnig i weithredu cynyddiadau i ffioedd priodol bob dwy flynedd, yn ogystal â chynyddu ffi gorchymyn atebolrwydd y treth cyngor i gadw ei werth presennol o £0.50c. Y dyddiad cau ar gyfer anfon ymatebion yw 22 Rhagfyr 2023.

45. Mae’r papur ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar-lein yn GOV.UK. Mae copïau o’r papur ymgynghori hefyd yn cael eu hanfon yn uniongyrchol at y Farnwriaeth.

46. Croesewir ymatebion gan unrhyw un â diddordeb neu safbwyntiau ar y pynciau a drafodwyd yn y papur hwn.

# Asesiad o'r effaith, cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg

## Asesiad o’r effaith

47. Mae asesiad effaith ffurfiol wedi’i baratoi ar gyfer y cynnig hwn ac mae wedi’i gyhoeddi ochr yn ochr â’r ymgynghoriad hwn. Mae ar gael yn: https://www.gov.uk/government/consultations/implementing-increases-to-selected-court-and-tribunal-fees

48. Mae’r asesiad effaith yn datgan bod GLITEF, defnyddwyr y llysoedd (unigolion, busnesau ac awdurdodau lleol), darparwyr gwasanaethau cyfreithiol, sefydliadau cymorth yn y sector cynghori a gwirfoddolwyr, trethdalwyr a’r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cael eu heffeithio’n benodol.

49. Mae’r cynigion yn debygol o greu costau ychwanegol i GLITEF a’r sector gwirfoddol/cynghori (oherwydd y newidiadau angenrheidiol i’w gweithredu) a busnesau a’r sector cyhoeddus (o ganlyniad i ffioedd uwch).

## Cydraddoldeb

50. O dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn Neddf Cydraddoldeb 2010 mae’n rhaid i ni ystyried effeithiau cynigion polisi ar gydraddoldeb mewn cysylltiad â:

    - dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
    - hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu
    - meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

51. At ddibenion yr asesiad effaith, y nodweddion gwarchodedig perthnasol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb yw: hil; rhyw; anabledd; cyfeiriadedd rhywiol; crefydd neu gred; oedran; ailbennu rhywedd; a beichiogrwydd a mamolaeth.

52. Paratowyd datganiad cydraddoldeb ar gyfer y cynnig hwn ac mae wedi’i gyhoeddi ochr yn ochr â’r ymgynghoriad hwn.

## Yr iaith Gymraeg

53. Byddai'r cynigion, o gael eu gweithredu, yn effeithio hefyd ar y rhai sy'n siarad Cymraeg. Mae'r cynigion yn cynnwys newidiadau i ffioedd sydd hefyd yn effeithio ar ddefnyddwyr y llysoedd sy'n siarad Cymraeg, er ni ddylent amharu'n anghymesur ar eu dealltwriaeth o ffioedd.

54. Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael yn: https://www.gov.uk/government/consultations/implementing-increases-to-selected-court-and-tribunal-fees. Darperir copi Saesneg o'r asesiad effaith a'r datganiad cydraddoldeb ar gais.

# Holiadur

Ffioedd yw'r brif ffynhonnell incwm uniongyrchol i GLITEF ac mae'n bwysig eu hadolygu er mwyn cyflawni dyletswydd statudol yr Arglwydd Ganghellor i sicrhau system llysoedd effeithlon ac effeithiol.  Er mwyn sicrhau bod y llysoedd yn cael eu hariannu'n briodol a'u bod yn gynaliadwy dros amser, bydd angen cynyddu'r ffioedd a delir gan ddefnyddwyr y gwasanaeth.

**Cwestiwn 1:** Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor y dylid cynyddu'r ffioedd yn gyfnodol i adlewyrchu costau cynyddol i GLlTEF o ganlyniad i newidiadau yn lefel gyffredinol prisiau? Rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 2:** Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor bod cynnydd o 10% ar gyfer hyd at 202 o ffioedd, i adlewyrchu'n rhannol cynyddiadau yn CPI o fis Mawrth 2021 yn briodol? Rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 3:** A oes yna unrhyw ffioedd sydd wedi'u hamlinellu yn Atodiad A na ddylid eu cynyddu 10% fel rhan o'r cynnig hwn? Rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 4:** Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i wneud cynyddiadau cynyddrannol, mwy rheolaidd ar sail chwyddiant a chostau i ffioedd llysoedd a thribiwnlysoedd bob dwy flynedd, yn hytrach na newidiadau llai aml ond mwy sylweddol ar sail ad hoc?  Rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 5:** Beth yw eich barn ar y cynnig i gynyddu ffi gorchymyn atebolrwydd y treth cyngor, a chynnal ei gwerth presennol o £0.50c?

**Cwestiwn 6:** Beth yn eich barn chi yw effeithiau cydraddoldeb y cynigion ar unigolion â nodweddion gwarchodedig?  A oes mathau o ddulliau lliniaru sy'n berthnasol i'r effeithiau ar gydraddoldeb nad ydym wedi'u hystyried.  Rhowch resymau dros eich ateb.

**Diolch i chi am gymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghori hwn.**

# Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i sôn amdanoch eich hun.

| | |
|---|---|
| **Enw llawn** | |
| **Teitl swydd** neu ym mha rinwedd ydych chi'n ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd ac yn y blaen) | |
| **Dyddiad** | |
| **Enw cwmni/sefydliad** (os yw'n berthnasol) | |
| **Cyfeiriad** | |
| **Cod post** | |
| Os hoffech i ni gydnabod bod eich ymateb wedi ein cyrraedd, ticiwch y blwch hwn | ☐ (ticiwch y blwch) |
| Y cyfeiriad ar gyfer anfon y gydnabyddiaeth, os yw'n wahanol i'r uchod | |
| | |
| | |

**Os ydych yn cynrychioli grŵp,** rhowch enw'r grŵp hwnnw a chrynodeb o'r bobl neu'r sefydliadau rydych yn eu cynrychioli.

# Manylion cyswllt a sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 22 Rhagfyr 2023 i:

**Tîm Polisi Ffioedd / Fees Policy Team**

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder / Ministry of Justice
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ

**E-bost**: MoJ Fees Policy mojfeespolicy@justice.gov.uk

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

## Copïau ychwanegol

Gallwch gael copïau papur ychwanegol o'r ymgynghoriad hwn o'r cyfeiriad uchod. Mae copïau digidol hefyd ar gael yn https://consult.justice.gov.uk/.

Gallwch wneud cais am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformat amgen o mojfeespolicy@justice.gov.uk

## Cyhoeddi'r ymateb

Cyhoeddir papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn maes o law. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn www.consult.justice.gov.uk

## Grwpiau cynrychioliadol

Gofynnir i grwpiau cynrychioliadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau maent yn eu cynrychioli wrth iddynt ymateb.

## Cyfrinachedd

Gall gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r trefniadau mynediad at wybodaeth (y rhain yn bennaf yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Deddf Diogelu Data 2018 (DPA) Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y Deyrnas Unedig (UK GDPR) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

Os ydych yn dymuno i'r wybodaeth y byddwch yn ei darparu gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol, o dan y FOIA, bod cod ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef, ymhlith pethau eraill, gyda rhwymedigaethau cyfrinachedd. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd ym mhob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd a gynhyrchir yn awtomatig gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried yn rhwymol ar y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Os nad ydych yn dymuno i'ch enw/hunaniaeth gorfforaethol gael ei datgelu'n gyhoeddus fel hyn, yna fe'ch cynghorir i ddarparu ymateb yn ddienw (er enghraifft 'perchennog busnes lleol', 'aelod o'r cyhoedd').

Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn prosesu eich data personol yn unol â'r DPA ac yn y mwyafrif o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i unrhyw drydydd parti.

Am wybodaeth bellach gweler siarter gwybodaeth bersonol y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

# Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisïau a deddfwriaeth wedi'u nodi yn Egwyddorion Ymgynghori 2018 Swyddfa'r Cabinet, sydd ar gael ar-lein yn:

www.assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1_.pdf

# Atodiad A: Y ffioedd arfaethedig i'w cynyddu

Mae'r tablau isod yn nodi manylion y ffioedd rydym yn cynnig eu cynyddu, gan gynnwys y ffi bresennol, y ffi arfaethedig a chynnydd dilynol i'r ffi.  Nodwch fod y rhesi sydd wedi'u hamlygu gyda'r ffioedd wedi'u marcio gyda seren (*) yn cynrychioli'r 70 ffi sy'n destun dadansoddiad pellach i gadarnhau a fyddai'r cynnydd o 10% yn golygu bod y ffi a godir yn gor-adfer ei chost sylfaenol. Gweler paragraffau 29 a 30 am fanylion pellach.

Mae'r newidiadau arfaethedig i'r ffioedd wedi'u dadansoddi yn ôl y gorchmynion ffi perthnasol y cyfeirir atynt.

**Rheoliadau Cofrestru Gweithredoedd (Ffioedd) 1994 Rhif 601**

Mae'r ffioedd o fewn cwmpas y Rheoliadau Cofrestru Gweithredoedd (Ffioedd) yn cynnwys y ffi i gofrestru gweithred newid enw.

| Rhif Adnabod OS | Disgrifiad | Presennol | Arfaethedig | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| **1** | Cam 51 – gweithred newid enw Mainc y Brenin (ar gyfer cofrestru gweithred) | £10 | £11 | £1 |

**Gorchymyn Ffioedd Profiant Annadleuol 2004 Rhif 3120**

Mae'r ffioedd o fewn cwmpas y Gorchymyn Ffioedd Profiant Annadleuol yn cynnwys grantiau profiant ac adneuo ewyllysiau.

| Rhif Adnabod OS | Disgrifiad | Presennol | Arfaethedig | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| **1** | Cais am grant profiant (Ystad yn fwy na 5000 GBP) | £273 | £300 | £27 |
| **3.2** | Grant profiant ar gyfer ystad sydd wedi'i heithrio rhag treth etifeddiant | £10 | £11 | £1 |
| **6** | Adneuo ewyllysiau* | £20 | £22 | £2 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **9.1** | Ar gyfer pob deponiwr i bob affidafid* | £11 | £12 | £1 |

**Gorchymyn Ffioedd y Llys Gwarchod 2007 Rhif 1745**

Mae'r ffioedd o fewn cwmpas gorchymyn ffioedd y Llys Gwarchod yn cynnwys y ffi i wneud cais am weithred o dan, gwrandawiad o dan neu apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005.

| Rhif Adnabod OS | Disgrifiad | Presennol | Arfaethedig | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| **4** | Ffi gwneud cais (Erthygl 4) | £371 | £408 | £37 |
| **5** | Ffi Apêl (Erthygl 5) | £234 | £257 | £23 |
| **6** | Ffi gwrandawiad (Erthygl 6)* | £494 | £543 | £49 |

**Gorchymyn Ffioedd y Llys Ynadon 2008 Rhif 1052**

Mae'r ffioedd o fewn cwmpas gorchymyn ffioedd y Llys Ynadon yn cynnwys ffioedd sy'n cynnwys ffioedd gwneud cais, ffioedd apelio, ffioedd am ddogfennau a ffioedd codi gwarantau.[9]

| Rhif Adnabod OS | Disgrifiad | Presennol | Arfaethedig | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| **1.1** | Cais i ynad heddwch gyflawni swyddogaeth nad yw ar safle'r llys | £25 | £28 | £3 |
| **2.1** | Cais i gyflwyno cais ar gyfer barn yr Uchel Lys* | £137 | £151 | £14 |
| **2.2** | Apêl (gorchymyn didynnu o enillion) | £19 | £21 | £2 |

[9] Noder, nid yw help i dalu ffioedd ar gael ar gyfer unrhyw ffioedd copi

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **2.3** | Apêl  - achos o dan Atodlen 5, Deddf Trwyddedu 2003 | £62 | £68 | £6 |
| **2.4** | Apêl (ni nodir unrhyw ffi arall) | £62 | £68 | £6 |
| **3.1** | Cais am dystysgrif gwrthod datgan achos* | £105 | £116 | £11 |
| **3.2** | Cais am dystysgrif bodlonrwydd* | £16 | £18 | £2 |
| **3.3** | Cais am gopi ardystiedig o femorandwm euogfarn* | £20 | £22 | £2 |
| **3.4** | Cais am dystysgrif/dogfen ardystiedig (ni nodir unrhyw ffi arall)* | £20 | £22 | £2 |
| **4.2** | Cais am orchymyn atebolrwydd (Deddf Cynnal Plant 1991)* | £25 | £28 | £3 |
| **6.1** | Cais am drwydded/cydsyniad/awdurdod (ni nodir unrhyw ffi arall) | £27 | £30 | £3 |
| **6.2** | Cais i adnewyddu/amrywio trwydded bresennol | £27 | £30 | £3 |
| **6.3** | Cais i ddirymu trwydded (ni nodir unrhyw ffi arall) | £27 | £30 | £3 |
| **7.1** | Wrth gymryd ardystiad swyddog heddlu neu swyddog heddlu gwirfoddol* | £11 | £12 | £1 |
| **7.2** | Ar gyfer pob llw (ac yn y blaen) lle na nodir unrhyw ffi arall* | £27 | £30 | £3 |
| **8.1** | Dechrau achos pan na nodir unrhyw ffi arall | £226 | £249 | £23 |
| **8.2a** | Cais i adael/caniatâd i ddechrau achos (ni nodir unrhyw ffi arall) | £125 | £138 | £13 |
| **8.2b** | Dechrau achos pan roddir hawl/caniatâd | £125 | £138 | £13 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **9.1** | Cais am warant mynediad* | £22 | £24 | £2 |
| **9.2** | Cais am unrhyw warant arall (ni nodir unrhyw ffi arall) | £81 | £89 | £8 |
| **10.1** | Cais am warant o ymrwymiad (achos treth cyngor)* | £264 | £290 | £26 |
| **10.2** | Cais am warant o ymrwymiad (Deddf Cynnal Plant 1991) | £41 | £45 | £4 |

**Gorchymyn Ffioedd Achosion Teulu 2008 Rhif 1054**

Mae'r ffioedd o fewn cwmpas y gorchymyn ffioedd Achosion Teulu yn cynnwys ffioedd fel achosion a ddygwyd ymlaen o dan Ddeddf Plant 1989, ffioedd sy'n gysylltiedig ag ysgariad a ffioedd codi am warantau.

| Rhif Adnabod OS | Disgrifiad | Presennol | Arfaethedig | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| **1.1** | Cychwyn achos lle ni nodir unrhyw ffi arall | £245 | £270 | £25 |
| **1.2** | Cyflwyno cais am ysgariad, dirymu neu ddiddymu partneriaeth sifil | £593 | £652 | £59 |
| **1.3** | Cais am orchymyn priodasol neu bartneriaeth sifil | £365 | £402 | £37 |
| **1.5** | Diwygio cais ar gyfer gorchymyn priodasol neu bartneriaeth sifil* | £95 | £105 | £10 |
| **1.6** | Ateb cais am orchymyn priodasol neu bartneriaeth sifil* | £245 | £270 | £25 |
| **1.7** | Cais am orchymyn asesu costau* | £50 | £55 | £5 |
| **1.8** | Cais am orchymyn rhieni | £232 | £255 | £23 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **2.1a** | Cyfrifoldeb rhieni (adran 4(1)(c) neu (3), 4A(1)(b) neu (3) Deddf Plant1989) | £232 | £255 | £23 |
| **2.1b** | Cyfrifoldeb rhieni (adran 4ZA(1)(c) neu (6) Deddf Plant 1989) | £232 | £255 | £23 |
| **2.1c** | Gwarcheidwaid (adran 5(1) neu 6(7) Deddf Plant 1989) | £232 | £255 | £23 |
| **2.1d** | Gorchmynion adran 8 (adran 10(1) neu (2) Deddf Plant 1989) | £232 | £255 | £23 |
| **2.1e** | Gorchmynion gorfodi (adran 11J(2) Deddf Plant 1989)* | £232 | £255 | £23 |
| **2.1f** | Iawndal am golled ariannol (adran 11O(2) Deddf Plant 1989) | £232 | £255 | £23 |
| **2.1g** | Newid cyfenw plentyn neu ddileu o awdurdodaeth tra bydd gorchymyn preswylio mewn grym (adran 13(1) Deddf Plant 1989) | £232 | £255 | £23 |
| **2.1h** | Gorchmynion gwarcheidwaeth arbennig (adran 14A(3) neu (6)(a), 14C(3) neu 14D(1) Deddf Plant 1989) | £232 | £255 | £23 |
| **2.1i** | Gorchymyn llety diogel (adran 25 Deddf Plant 1989) – Lloegr | £232 | £255 | £23 |
| **2.1ia** | Gorchymyn llety diogel (adran 119 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) – Cymru | £232 | £255 | £23 |
| **2.1j** | Newid cyfenw plentyn neu ddileu o awdurdodaeth tra bydd gorchymyn gofal mewn grym (adran 33(7) Deddf Plant 1989) | £232 | £255 | £23 |
| **2.1k** | Cyswllt â phlentyn mewn gofal (adran 34(2), (3), (4) neu (9) Deddf Plant 1989) | £232 | £255 | £23 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **2.1l** | Gorchymyn goruchwyliaeth addysg (adran 36(1) Deddf Plant 1989) | £232 | £255 | £23 |
| **2.1m** | Amrywio neu ryddhau ac ati, gorchmynion gofal a goruchwylio (adran 39 Deddf Plant 1989) | £232 | £255 | £23 |
| **2.1n** | Gorchymyn asesu plentyn (adran 43(1) Deddf Plant 1989) | £232 | £255 | £23 |
| **2.1o** | Gorchmynion amddiffyn brys (adrannau 44, 45 a 46 Deddf Plant 1989) | £232 | £255 | £23 |
| **2.1p** | Gwarant i gynorthwyo person sy'n arfer pwerau o dan orchymyn amddiffyn brys (adran 48 Deddf Plant 1989) | £232 | £255 | £23 |
| **2.1q** | Gorchymyn adfer (adran 50 Deddf Plant 1989) | £232 | £255 | £23 |
| **2.1s** | Gwarant i gynorthwyo person sy’n arfer pwerau i chwilio am blant neu archwilio eiddo (adran 102 Deddf Plant 1989) | £232 | £255 | £23 |
| **2.1t** | Ceisiadau mewn cysylltiad â gorchmynion gorfodi (paragraff 4(2), 6(2), 7(2) neu 9(2) Atodlen A1 Deddf Plant 1989) | £102 | £112 | £10 |
| **2.1u** | Diwygio gorchymyn gorfodi yn dilyn newid cyfeiriad (paragraff 5(2) Atodlen A1 Deddf Plant 1989)* | £70 | £77 | £7 |
| **2.1v** | Darpariaeth ariannol ar gyfer plant (paragraff 1(1) neu (4), 2(1) neu (5), 5(6), 6(5), (7) neu (8), 8(2), 10(2), 11 neu 14(1) Atodlen 1 Deddf Plant 1989) | £232 | £255 | £23 |
| **2.1w** | Cymeradwyaeth llys i blentyn yng ngofal awdurdod lleol i fyw dramor (paragraff 19(1) Atodlen 2 Deddf Plant 1989) – Lloegr | £232 | £255 | £23 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **2.1wa** | Cymeradwyaeth llys i blentyn yng ngofal awdurdod lleol i fyw dramor (adran 124(1) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) - Cymru | £232 | £255 | £23 |
| **2.1x** | Ymestyn gorchymyn goruchwylio (paragraff 6 Atodlen 3 Deddf Plant 1989) | £232 | £255 | £23 |
| **2.1y** | Ymestyn neu ryddhau gorchymyn goruchwyliaeth addysg (paragraff 15(2) neu 17(1) Atodlen 3 Deddf Plant 1989) | £232 | £255 | £23 |
| **2.1z** | Apeliadau mewn cysylltiad â rhieni maeth (paragraff 8(1) Atodlen 8 Deddf Plant 1989) | £232 | £255 | £23 |
| **2.2** | Cais am achos o dan Adran 31 Deddf Plant 1989 (gorchmynion gofal a goruchwyliaeth)* | £2,215 | £2,437 | £222 |
| **2.3** | Apêl sy'n gysylltiedig â 2.1(a) i 2.1(s), (v) i (y) a 2.2 | £215 | £237 | £22 |
| **2.4** | Apêl o dan orchymyn cyfrannu - Lloegr | £215 | £237 | £22 |
| **2.5** | Apêl o dan orchymyn cyfrannu – Cymru | £215 | £237 | £22 |
| **2.6a** | Adran 72 – canslo, amrywio, dileu neu osod amod cofrestru gwarchodwr plant neu ofalwr dydd (Lloegr) | £232 | £255 | £23 |
| **2.6b** | Adran 34 – Canslo cofrestru gwarchodwr plant neu ofalwr dydd (Cymru) | £232 | £255 | £23 |
| **2.7** | Dechrau apêl gwarchod plant neu ofal dydd (Cymru neu Loegr) | £215 | £237 | £22 |
| **3.1** | Cais/caniatâd i wneud cais i fabwysiadu | £183 | £201 | £18 |
| **3.2** | Cais ar gyfer gorchymyn lleoli (o dan Adran 22 Deddf Plant 1989)* | £490 | £539 | £49 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **3.3** | Cais i'r Uchel Lys mewn cysylltiad ag awdurdodaeth gynhenid mewn perthynas â phlant | £183 | £201 | £18 |
| **4.1** | Cais am hysbysiad rhybuddio i'w atodi i orchymyn cyswllt* | £54 | £59 | £5 |
| **5.1** | Cais (heb rybudd)* | £53 | £58 | £5 |
| **5.2** | Cais am decree nisi, gorchymyn amodol, gorchymyn gwahanu (dim ffi os yn ddiamddiffyn) | £54 | £59 | £5 |
| **5.3** | Cais (ar rybudd) (oni restrir fel arall)* | £167 | £184 | £17 |
| **5.4** | Cais am orchymyn ariannol (ac eithrio gorchymyn cydsynio) | £275 | £303 | £28 |
| **6.1** | Ffeilio rhybudd apêl gan farnwr rhanbarth, un neu fwy o ynadon lleyg, clerc ynadon neu gynorthwyydd i glerc ynadon | £125 | £138 | £13 |
| **9.3** | Cyhoeddi tystysgrif costau diofyn – Teulu* | £65 | £72 | £7 |
| **9.4** | Apêl (achos asesiad manwl) - Teulu | £210 | £231 | £21 |
| **9.5** | Cais i roi tystysgrif costau diofyn o'r neilltu | £110 | £121 | £11 |
| **10.2** | Cais i orchymyn cynhaliaeth gael ei gofrestru o dan Ddeddf Gorchmynion Cynhaliaeth 1950 neu 1958 | £50 | £55 | £5 |
| **11.1** | Cais am orchymyn ar gyfer darpariaeth ariannol | £215 | £237 | £22 |
| **12.1** | Cais i gwestiynu dyledwr dyfarniad neu berson arall | £54 | £59 | £5 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **12.2** | Cais am orchymyn dyled trydydd parti/penodi derbynnydd | £77 | £85 | £8 |
| **12.3** | Cais am orchymyn arwystlo | £38 | £42 | £4 |
| **12.4** | Cais am wŷs dyfarniad | £73 | £80 | £7 |
| **12.5** | Cais am orchymyn atafaelu enillion - Teulu | £34 | £37 | £3 |
| **13.1** | Cais i orfodi dyfarniad neu orchymyn - – gwarant rheolaeth yn erbyn nwyddau | £100 | £110 | £10 |
| **13.2** | Cais am ymgais i weithredu gwarant mewn cyfeiriad newydd* | £30 | £33 | £3 |
| **13.3** | Codi gwarant meddiant neu warant danfon* | £119 | £131 | £12 |
| **14.1** | Selio gwrit darafaeliad/meddiant/cyflenwi | £60 | £66 | £6 |
| **14.2** | Ar gais i gofrestru dyfarniad neu orchymyn; neu ar gyfer caniatâd i orfodi dyfarniad cyflafareddu; neu am gopi ardystiedig o ddyfarniad neu orchymyn i'w ddefnyddio dramor | £60 | £66 | £6 |
| **15.1** | Cais am wasanaeth beili i gyflwyno dogfen (gweler y gorchymyn am eithriadau)* | £45 | £50 | £5 |
| **17f.1** | Cymryd affidafid/cadarnhad/ardystiad ar anrhydedd* | £11 | £12 | £1 |

**Gorchymyn Ffioedd Achosion Sifil 2008 Rhif 1053**

Mae'r ffioedd o fewn cwmpas y gorchymynion ffioedd Achosion Sifil yn cynnwys ffioedd ceisiadau cyffredinol, ffioedd sy'n berthnasol i rwymedïau eraill, a ffioedd sy'n gysylltiedig â chyhoeddi tystysgrifau neu orchmynion penodol.

| Rhif Adnabod OS | Disgrifiad | Presennol | Arfaethedig | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| **1.4a** | Adfer tir (Uchel lys)* | £480 | £528 | £48 |
| **1.4b** | Adfer tir (Llys Sirol) | £355 | £391 | £36 |
| **1.5CC** | Unrhyw rwymedi arall (Llys Sirol) | £332 | £365 | £33 |
| **1.5HC** | Unrhyw rwymedi arall (Uchel Lys) | £569 | £626 | £57 |
| **1.6** | Ffeilio achos yn erbyn parti heb ei enwi | £59 | £65 | £6 |
| **1.8a** | Caniatâd i gychwyn achos | £59 | £65 | £6 |
| **1.8b** | Asesiad o gostau (o dan Ran 3, Deddf Cyfreithwyr 1974) | £59 | £65 | £6 |
| **1.9a** | Caniatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol | £154 | £169 | £15 |
| **1.9b** | Cais i ailystyried mewn gwrandawiad penderfyniad ar ganiatâd | £385 | £424 | £39 |
| **1.9c** | Caniatâd i fwrw ymlaen ag adolygiad barnwrol os caiff ei ddechrau gyda chais am ganiatâd i wneud cais am Adolygiad Barnwrol | £770 | £847 | £77 |
| **1.9d** | Caniatâd i fwrw ymlaen ag adolygiad barnwrol os caiff ei ddechrau ac eithrio gyda chais am ganiatâd i wneud cais am Adolygiad Barnwrol | £154 | £169 | £15 |
| **2.2** | Hysbysiad yr apelydd/atebydd (Uchel Lys) | £259 | £285 | £26 |
| **2.3a** | Hysbysiad yr apelydd/atebydd (Hawliadau bychain y Llys Sirol) | £129 | £142 | £13 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **2.3b** | Hysbysiad yr apelydd/atebydd (Hawliadau eraill y Llys Sirol) | £151 | £166 | £15 |
| **2.4(a)** | Cais cyffredinol (ar rybudd) ac eithrio Deddf Gwarchodaeth rhag Aflonyddu 1997 a Thaliad Cronfa’r Llys | £275 | £303 | £28 |
| **2.4(b)** | Cais cyffredinol (ar rybudd) Deddf Gwarchodaeth rhag Aflonyddu 1997 a Thaliad Cronfa’r Llys | £167 | £184 | £17 |
| **2.5(a)** | Cais cyffredinol (drwy gydsyniad/heb rybudd) ac eithrio Deddf Gwarchodaeth rhag Aflonyddu 1997 a Thaliad Cronfa’r Llys | £108 | £119 | £11 |
| **2.5(b)** | Cais cyffredinol (drwy gydsyniad/heb rybudd) Deddf Gwarchodaeth rhag Aflonyddu 1997 a Thaliad Cronfa’r Llys | £54 | £59 | £5 |
| **2.6** | Ar gais am wŷs neu orchymyn i dyst fynychu’r llys* | £21 | £23 | £2 |
| **2.7** | Ar gais i amrywio dyfarniad neu atal gorfodaeth | £14 | £15 | £1 |
| **2.8** | Cyhoeddi tystysgrif bodlonrwydd* | £14 | £15 | £1 |
| **3.1b** | Deiseb am fethdaliad (a gyflwynwyd gan gredydwr/person arall) | £302 | £332 | £30 |
| **3.2** | Deiseb am orchymyn gweinyddu | £302 | £332 | £30 |
| **3.3** | Unrhyw ddeiseb arall | £302 | £332 | £30 |
| **3.4a** | Cais am dystysgrif rhyddhau o fethdaliad* | £75 | £83 | £8 |
| **3.5** | Ansolfedd – cais arall | £280 | £308 | £28 |
| **3.7** | Ffi dirwyn i ben gwirfoddol* | £50 | £55 | £5 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **3.8** | Hysbysiad o fwriad i benodi gweinyddwr | £50 | £55 | £5 |
| **3.9** | Cyflwyno adroddiad enwebai* | £35 | £39 | £4 |
| **3.10** | Ffeilio dogfennau ansolfedd* | £35 | £39 | £4 |
| **3.11** | Cais o fewn achos (drwy gydsyniad/heb rybudd)* | £26 | £29 | £3 |
| **3.12** | Cais o fewn achos ansolfedd (gyda rhybudd, lle na nodir unrhyw ffi arall)* | £99 | £109 | £10 |
| **5.3** | Cyhoeddi tystysgrif costau diofyn – Sifil | £71 | £78 | £7 |
| **5.4** | Apêl (achos asesu manwl ) – Sifil | £249 | £274 | £25 |
| **5.5** | Cais i roi tystysgrif costau diofyn o'r neilltu | £130 | £143 | £13 |
| **6.1** | Ffeilio cais am asesiad manwl ar gyfer y Llys Gwarchod* | £87 | £96 | £9 |
| **6.2** | Apêl yn erbyn penderfyniad asesu costau’r Llys Gwarchod | £70 | £77 | £7 |
| **6.3** | Cais i roi tystysgrif costau diofyn y Llys Gwarchod o’r neilltu | £65 | £72 | £7 |
| **7.1** | Selio gwrit rheolaeth/meddiant/cyflenwi (Uchel Lys) | £71 | £78 | £7 |
| **7.2** | Gorchymyn sy’n ei gwneud yn ofynnol i ddyledwr neu berson arall fynychu’r llys | £59 | £65 | £6 |
| **7.3a** | Gorchymyn dyled trydydd parti neu benodi derbynnydd drwy weithrediad teg | £119 | £131 | £12 |
| **7.3b** | Cais am orchymyn arwystlo | £119 | £131 | £12 |
| **7.4** | Cais am wŷs dyfarniad | £119 | £131 | £12 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **7.5** | Cofrestru dyfarniad neu orchymyn, neu am ganiatâd i orfodi dyfarniad cyflafareddu, neu am dystysgrif neu gopi ardystiedig o ddyfarniad neu orchymyn i'w ddefnyddio dramor | £71 | £78 | £7 |
| **8.1** | Cyhoeddi gwarant reolaeth | £83 | £91 | £8 |
| **8.2** | Cais am ymgais i weithredu gwarant mewn cyfeiriad newydd | £33 | £36 | £3 |
| **8.3** | Gorchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddyledwr fynychu'r llys | £59 | £65 | £6 |
| **8.4a** | Cais am orchymyn dyled trydydd parti | £119 | £131 | £12 |
| **8.4b** | Cais am orchymyn arwystlo | £119 | £131 | £12 |
| **8.5** | Cais am wŷs dyfarniad | £119 | £131 | £12 |
| **8.6** | Cyhoeddi gwarant meddiant/gwarant drosglwyddo | £130 | £143 | £13 |
| **8.7** | Cais am orchymyn atafaelu enillion - sifil | £119 | £131 | £12 |
| **8.9** | Cais i orfodi dyfarniad o swm o arian neu unrhyw benderfyniad arall a wneir gan unrhyw lys, tribiwnlys, corff neu berson | £47 | £52 | £5 |
| **8.10** | Cais am orchymyn i adfer dyled traffig ffordd benodedig | £9 | £10 | £1 |
| **8A.1** | Cyflwyno gorchymyn gan feili i fynd i'r Llys Sirol i'w holi | £119 | £131 | £12 |
| **10.1** | Biliau gwerthu | £30 | £33 | £3 |
| **10.4** | Penodi barnwr yr Uchel Lys fel cyflafareddwr neu ddyfarnwr* | £610 | £671 | £61 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **10.5** | Gwrandawiad gerbron barnwr yr Uchel Lys (y diwrnod neu ran o ddiwrnod) fel cyflafareddwr neu ddyfarnwr* | £610 | £671 | £61 |
| **11.1** | Ar fater gwarant i atafaelu llong neu nwyddau | £18 | £20 | £2 |
| **12.1** | Affidafid | £13 | £14 | £1 |
| **13.1a** | Ffeilio hysbysiad apelydd/atebydd yn y Llys Apêl lle gwneir cais am ganiatâd i apelio/estyn amser* | £569 | £626 | £57 |
| **13.1b** | Ffeilio hysbysiad apelydd/atebydd yn y Llys Apêl lle nad oes angen caniatâd i apelio neu lle rhoddwyd caniatâd* | £1,292 | £1,421 | £129 |
| **13.1c** | Llys Apêl - Apelydd/atebydd yn ffeilio holiadur apêl* | £1,292 | £1,421 | £129 |
| **13.2** | Llys Apêl - Ffeilio rhybudd atebydd* | £569 | £626 | £57 |
| **13.3** | Llys Apêl - Ffeilio rhybudd cais* | £569 | £626 | £57 |

**Gorchymyn Ffioedd yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Eiddo) 2009 Rhif 1114**

Mae’r ffioedd o fewn cwmpas gorchymyn ffioedd yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Tir) yn cynnwys ffioedd gwrandawiad ac apêl ynghylch cyfamodau cyfyngu a hawliau goleuni, a cheisiadau am orchmynion cydsynio

| Rhif Adnabod OS | Disgrifiad | Presennol | Arfaethedig | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| **1** | Caniatâd i apelio rh21* | £220 | £242 | £22 |
| **2** | Hysbysiad cyfeirio rh28 / apêl rh24 | £275 | £303 | £28 |
| **3** | Cais perchennog absennol Atodlen 2 CPA1965 (a) Deddf Prynu Gorfodol 1965; (b) penderfyniad syrfëwr ar iawndal | £550 | £605 | £55 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | partïon absennol o dan a.58 Deddf Cydgrynhoi Cymalau Tiroedd 1845* | | | |
| **4** | Cais cyfamod cyfyngol rh32 mewn perthynas ag a84 Deddf Cyfraith Eiddo 1925* | £880 | £968 | £88 |
| **5a** | Cais hawl i olau rh41 mewn perthynas ag a2 Deddf Hawl i Olau 1959 – Tystysgrif ddiffiniol* | £1,320 | £1,452 | £132 |
| **5b** | Cais hawl i olau rh41 mewn perthynas ag a2 Deddf Hawl i Olau 1959() – Tystysgrif Dros Dro a Diffiniol* | £1,650 | £1,815 | £165 |
| **6** | Cais yng nghwrs achos* | £110 | £121 | £11 |
| **7** | Cais am orchymyn cydsynio rh50* | £165 | £182 | £17 |
| **11a** | Gwrandawiad ar hawl - a84 Deddf Cyfraith Eiddo 1925 – rhyddhau/addasu cyfamod cyfyngu* | £550 | £605 | £55 |
| **11b** | Gorchymyn heb wrandawiad (rh46) - a84 Deddf Cyfraith Eiddo 1925 – rhyddhau/addasu cyfamod cyfyngu* | £275 | £303 | £28 |
| **11c** | Gwrandawiad o sylwedd o’r cais gwreiddiol - a84 Deddf Cyfraith Eiddo 1925 - rhyddhau/addasu cyfamod cyfyngu* | £1,100 | £1,210 | £110 |
| **11d** | Trefn Cofnodion yn ei ffurf derfynol - a84 Deddf Cyfraith Eiddo 1925 – rhyddhau/addasu cyfamod cyfyngu* | £220 | £242 | £22 |
| **12** | Gwrandawiad neu wrandawiad rhagarweiniol cyfeiriad/apêl (ni ddyfarnwyd swm)* | £550 | £605 | £55 |

**Gorchymyn Ffioedd y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Hapchwarae) 2010 Rhif 42**

Mae’r ffioedd o fewn cwmpas gorchymyn ffioedd y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Hapchwarae) yn cynnwys ffioedd apelio ar gyfer amrywiol drwyddedau gweithredol hapchwarae.

| Rhif Adnabod OS | Disgrifiad | Presennol | Arfaethedig | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| **1.1** | Apêl a141 Deddf Hapchwarae 2005 – trwydded gweithredu casino a65(2)(a)* | £14,000 | £15,400 | £1,400 |
| **1.2** | Apêl a141 Deddf Hapchwarae 2005 – trwydded gweithredu bingo a65(2)(b)* | £3,100 | £3,410 | £310 |
| **1.3** | Apêl a141 Deddf Hapchwarae 2005 – trwydded gweithredu betio cyffredinol a65(2)(c)* | £10,000 | £11,000 | £1,000 |
| **1.4** | Apêl a141 Deddf Hapchwarae 2005 – trwydded gweithredu betio cronfa a65(2)(d)* | £10,000 | £11,000 | £1,000 |
| **1.5** | Apêl a141 Deddf Hapchwarae 2005 – trwydded gweithredu cyfryngwr betio a65(2)(e)* | £10,000 | £11,000 | £1,000 |
| **1.6** | Apêl a141 Deddf Hapchwarae 2005 – trwydded gweithredu gyffredinol peiriannau hapchwarae cyffredinol a65(2)(f) – canolfan hapchwarae oedolion* | £1,600 | £1,760 | £160 |
| **1.7** | Apêl a141 Deddf Hapchwarae 2005 - trwydded gweithredu gyffredinol peiriannau hapchwarae cyffredinol – canolfan adloniant teuluoedd a 65(2)(g)* | £1,600 | £1,760 | £160 |
| **1.8** | Apêl a141 Deddf Hapchwarae 2005 – trwydded gweithredu dechnegol peiriannau hapchwarae a65(2)(h)* | £1,600 | £1,760 | £160 |
| **1.9** | Apêl a141 Deddf Hapchwarae 2005 – trwydded gweithredu meddalwedd hapchwarae a65(2)(i)* | £1,600 | £1,760 | £160 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **1.10** | Apêl a141 Deddf Hapchwarae 2005 - trwydded gweithredu'r loteri a65(2)(j)* | £9,400 | £10,340 | £940 |
| **1.11** | Apêl a141 Deddf Hapchwarae 2005 – trwydded swyddfa reoli bersonol a27* | £1,600 | £1,760 | £160 |
| **1.12** | Apêl a141 Deddf Hapchwarae 2005 – trwydded swyddogaeth weithredol bersonol a27* | £800 | £880 | £80 |
| **2** | Apêl a337(1) Deddf Hapchwarae 2005 yn erbyn gorchymyn y Comisiwn Hapchwarae i ddirymu bet a336(1)* | £9,400 | £10,340 | £940 |

**Gorchymyn Ffioedd yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Mewnfudo a Lloches) (Adolygiad Barnwrol) (Cymru a Lloegr) 2011 Rhif 2344**

Mae’r ffioedd o fewn cwmpas gorchymyn ffioedd yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Mewnfudo a Lloches) yn cynnwys ceisiadau am ganiatâd a cheisiadau am adolygiad barnwrol.

| Rhif Adnabod OS | Disgrifiad | Presennol | Arfaethedig | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| **1.1** | Caniatâd i wneud cais am Adolygiad Barnwrol | £154 | £169 | £15 |
| **1.1a** | Adolygiad Barnwrol – Adnewyddu ar lafar | £385 | £424 | £39 |
| **1.2** | Caniatâd ar gyfer Adolygiad Barnwrol – caniatâd i symud ymlaen pan ddechreuwyd achos trwy gais am ganiatâd | £770 | £847 | £77 |
| **1.3** | Caniatâd ar gyfer Adolygiad Barnwrol - caniatâd i symud ymlaen pan ddechreuwyd achos heblaw drwy gais am ganiatâd | £154 | £169 | £15 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **2.1** | Cais Cyffredinol am Adolygiad Barnwrol – Ar rybudd (ni nodir unrhyw ffi arall) | £255 | £281 | £26 |
| **2.2** | Cais Cyffredinol am Adolygiad Barnwrol - Trwy ganiatâd neu heb rybudd (ni nodir unrhyw ffi arall) | £100 | £110 | £10 |
| **2.3** | Adolygiad Barnwrol – Cais ar gyfer gwŷs neu orchymyn i dyst fynychu'r Tribiwnlys | £50 | £55 | £5 |

**Gorchymyn Ffioedd y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambr Eiddo) 2013 Rhif 1179**

Mae'r ffioedd o fewn cwmpas gorchymyn ffioedd y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambr Eiddo) yn cynnwys penderfynu ar gostau a ffioedd er mwyn dechrau achos.

| Rhif Adnabod OS | Disgrifiad | Presennol | Arfaethedig | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| **1.1** | Dechrau achos (cais neu apêl) mewn achos eiddo preswyl, lle nad yw unrhyw ffioedd eraill yn berthnasol | £100 | £110 | £10 |
| **1.2** | Ffeilio achos i gymeradwyo arfer pŵer mynediad | £100 | £110 | £10 |
| **1.3** | Cais cartrefi symudol (ffi llain ar wahân i safleoedd Awdurdodau Lleol) | £20 | £22 | £2 |
| **1.4** | Cartrefi symudol – cais ar gyfer penderfyniad i ystyried cost gwelliannau'r perchennog - para 1.4 | £20 | £22 | £2 |
| **1.5** | Cartrefi symudol – penderfynu ar ffi llain awdurdod lleol | £20 | £22 | £2 |
| **1.6** | Cartrefi Symudol – cais ar gyfer penderfyniad i ystyried cost gwelliannau'r perchennog - para 1.6 | £20 | £22 | £2 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **2.1** | Hysbysiad o ddyddiad gwrandawiad ar gyfer cais 1.1 neu 1.2 - dim ond un yn daladwy os caiff ceisiadau eu cyfuno | £200 | £220 | £20 |

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2023**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Pan fyddwn wedi dynodi unrhyw wybodaeth fel hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn fformat amgen ar gais gan Polisi Ffioedd, y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn: mojfeespolicy@justice.gov.uk